**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017 am 9.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | L James | P Jones |
| I E Mann | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|

**Mynychwyr eraill**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Ben Smith | Swyddog A.151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P Downing, M H Jones, J W Jones a/ac B J Rowlands
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Cofnodion.**

Cymeradwywyd

3 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Dim

4 **Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2016/17**

- Dyma gofnod Cyngor Abertawe o gynnydd o ran bodloni blaenoriaethau'r llynedd a osodwyd yn y Nodau Corfforaethol.

- Caiff adroddiad tebyg iawn ei lunio flwyddyn nesaf ond bydd o ganlyniad i'r gofyniad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, felly bydd rhai gwahaniaethau.
- Mae gwasanaethau yn cyflwyno hunanwerthusiadau wedi'u sgorio ar fatrics. Mae'r hunanwerthusiadau yn berthnasol i weithgareddau dan y Nodau Corfforaethol a chaiff y sgorau hyn eu hadolygu gan y Tîm Perfformiad ar gyfer cywirdeb a thegwch.
- Sefydlwyd y matrics i greu ymagwedd gyson at sgorio ar draws yr holl wasanaethau.
- Amlygodd y panel faterion megis diogelu, gwella cyrhaeddiad disgyblion, creu dinas lewyrchus llawn addewid, trechu tlodi ac adeiladu cymunedau cynaliadwy ar gyfer gwneud sylwadau.
- Dywedodd Richard Rowlands fod yr hunanasesiad yn berthnasol i'r gweithgareddau a nodwyd yn y Nodau Corfforaethol yn unig; nid yw'n asesiad o'r darlun cyffredinol neu'r sefyllfa economaidd ehangach.
- Yn gyffredinol, roedd y sylwadau'n gadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad, ond mae sawl cwestiwn a sylw y gellir dod o hyd iddynt yn y llythyr.

5 **Monitro Cyllideb yr Ail Chwarter**

- Daeth Ben Smith i drafod monitro cyllideb yr ail chwarter.
- Mae £12m wrth gefn gydag oddeutu £8m o orwariant wedi'i ragweld.
- Mae angen cydbwyso'r gyllideb o flwyddyn i flwyddyn, ac nid dros gyfnod o flynyddoedd.
- Mae gan rai meysydd (gofal cymdeithasol) elfen o gynyddu'r gyllideb ar y dechrau, ond, yn gyffredinol, nid yw hyn yn digwydd.
- Trafodwyd crynodebau gorwario. Mae hyn oherwydd na wnaed arbedion mor gyflym ac ar yr un raddfa â'r hyn a oedd ei angen.
- Mae £500k o arian grant ar gael i fynd i'r afael â pheth o'r gorwariant, ond bydd y grantiau yn lleihau dros y blynyddoedd nesaf felly ni fydd hyn ar gael.
- Mae'r gronfa wrth gefn wedi'i hymrwymo'n llwyr ar gyfer 2017/18 ac mae hyn ar gyfer ymddeoliad cynnar/colli swydd yn wirfoddol yn bennaf.
- Yn gyffredinol, mae tanwariant ar arian cyfalaf, ond rhoddir hwn yn llawn yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Caiff yr arian hwn ei ddefnyddio i helpu i liniaru effaith gwario ar ddatblygu.
- Nid oes argymhelliad i roi unrhyw arian yn y Gwasanaethau Corfforaethol flwyddyn nesaf.
- Mae'n rhaid i'r Tîm Rheoli Corfforaethol roi caniatâd i recriwtio ar gyfer pob swydd.

6 **Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

- Trefnir Adolygiad Comisiynu Priffyrdd a Chludiant ar gyfer mis Mawrth 2018.
- Ychwanegir eitem ar gynigion cyllidebol i'r cyfarfod ar 10 Ionawr a symudir yr eitem arolwg canfyddiad i fis Mawrth.

**Llythyr at Aelod y Cabinet**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.15 am

**Cadeirydd**